# COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR MWYNDERAU A GYNHALIWYD AR 20FED MAI 2024

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Morwenna Pugh (Cadeirydd)

Marc Lloyd Griffiths

Mark Thomas

David Meirion Jones

Geoffrey Jones

Peter Jones

Troy Maclean

Gareth Davies

Rory Francis (ar Zoom)

Mark Gahan, Cyngor Gwynedd – eitem 3

Helen Jones – eitem 5

Ellen Pugh, Dirprwy Glerc

Sioned Graham-Cameron, Clerc

**1. Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Eifiona Davies, Linda Ann Jones a Dafydd Dafis.

**2. Datgan Buddiannau**

Nid oedd unrhyw fuddiannau i'w datgan.

**3. Cyfranogiad y Cyhoedd**

Croesawyd Mark Gahan i'r cyfarfod, Swyddog Cefnogi Cymunedau gyda Chyngor Gwynedd, i'r cyfarfod. Gwnaeth gyflwyniad ar gynlluniau grant a allai fod ar gael i'r Cyngor Tref i ddatblygu mannau chwarae. Cafwyd trafodaeth ar yr hyn yr oedd y Cyngor yn dymuno ei wneud yn y dyfodol, a chytunwyd bod y cynghorwyr yn llunio rhestr blaenoriaeth o'r hyn yr hoffent ei weld yn digwydd, a'i hanfon at Mark Gahan. Dywedodd hefyd ei fod yn cydweithio gyda Joe Simpson, Actif Gogledd Cymru, a oedd yn dod i annerch y Cyngor ar 10fed Mehefin 2024. Diolchwyd i Mark Gahan am ei gyfraniad.

Gan fod Helen Jones yn y cyfarfod, cytunwyd symud eitem 5 i fyny'r rhestr a thrafod y Caeau Chwarae cyn eitem 4.

**5. Caeau Chwarae a Gwaith Chwynu**

Trafodwyd gwaith chwynu'r parciau ac ati, gyda Helen yn esbonio faint o oriau roedd ganddi bob mis i drin pob safle. Pwysleisiwyd yr angen i sicrhau bod gwaith chwynu'r Parc yn cael ei gwblhau yn gyflym, gan fod planhigion a chompost yn cyrraedd, a dywedodd Helen y byddai'n gorffen y gwaith y dydd Mawrth canlynol, 21ain Mai 2024.

Cyflwynwyd adroddiad misol archwilio caeau chwarae'r Cyngor Tref, a derbyniwyd hwnnw.

Gadawodd Helen y cyfarfod.

**Tendr Archwilio Caeau Chwarae 2024-2027**

Adroddwyd bod un cais wedi ei dderbyn ar gyfer Tendr Archwilio Caeau Chwarae. Cynigiodd Y Cynghorydd Mark Thomas ac eiliodd Y Cynghorydd Morwenna Pugh bod y tendr yn cael ei ddyfarnu i Helen Jones a chytunodd pawb.

**4. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Mwynderau a gynhaliwyd ar 15fed Ebrilll 2024**

Cynigiodd Y Cynghorydd Geoffrey Jones ac eiliodd Y Cynghorydd David Meirion Jones bod y cofnodion yn cael eu derbyn fel cofnod cywir a chytunodd pawb.

**6. Rhestr Waith y Swyddog Cynnal a Chadw**

Cyflwynwyd adroddiad ar waith y Swyddog Cynnal a Chadw, a chytunwyd atgoffa bod angen gosod biniau yn Y Berllan. Derbyniwyd yr adroddiad.

**7. Gŵyl yr Haf 2024**

Cafwyd diweddariad ar Hwyl yn y Parc 2024 ac adroddwyd bod cynnydd da. Trafodwyd cael gwerthwyr bwyd eraill ar y penwythnos, a chynigiodd Y Cynghorydd Morwenna Pugh ac eiliodd Y Cynghorydd Troy Maclean bod hyn yn digwydd mewn egwyddor, gyda'r manylion i'w cadarnhau, a chytunodd pawb.

**8. Plannu yn y Parc**

Adroddwyd bod y planhigion yn barod yn y Feithrinfa, a bod y compost wedi cyrraedd y parc. Cytunwyd dechrau lledaenu'r compost dros y dyddiau nesaf, a threfnu rhoi'r planhigion yn y ddaear cyn gynted ag y bo modd.

**9. Cae Tanygrisiau**

Nid oedd unrhyw beth newydd i'w adrodd, gyda'r gwaith papur gyda chyfreithiwr y Cyngor.

**10. Llwybrau Cerdded – Diweddariad ar geisiau am y Tendr Cerdded Llwybrau**

Adroddwyd bod nifer o geisiadau wedi dod i law, a bod y dyddiad cau ar 31 Mai 2024. Derbyniwyd yr adroddiad.

**11. Gwybodaeth gan Peter Simpson, Rheolwr Gwasanaeth Edrychiad Stryd**

Derbyniwyd adroddiad ar gynllun Cyngor Gwynedd i adnewyddu biniau canol tref y Blaenau gan wneud cais am arian Grant Cronfa Lechi. Byddai'r biniau yn cael eu dodi yn yr un lleoliadau ag ar hyn o bryd, gydag ychwanegiad dau fin clyfar yng nghanol y dref. Byddai hefyd un ychwanegol ar dop maes parcio Diffwys, yn unol â chais gan y Cyngor Tref.

Roedd diweddariad hefyd ar y sefyllfa baw cŵn yn y dref, ac awgrymiadau o ran sut gellid symud ymlaen i geisio delio gyda'r broblem, yn cynnwys dosbarthu taflenni wedi eu diweddaru o ymgyrch flaenorol, ac adrodd yn fwy manwl am leoliad problemau, a mwy o batrolio gan y Wardeniaid Cŵn. Derbyniwyd yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 19.57.